# Eric Henry Liddell 1902–1945

## *Cenhadwr ac athletwr*

Ganwyd Eric Henry Liddell yn Tientsin (Tianjin), China, ar 16 Ionawr 1902. Ef oedd yr ail o dri phlentyn i'r Parch. James Dunlop Liddell, cenhadwr Annibynnol o Drymen, Swydd Stirling, a'i wraig Mary Reddin, nyrs o Paxton, Swydd Berwick. Treuliodd ei ddyddiau cynnar yn yr orsaf genhadol ym mhentref Xiaoguan (Siaokuan), de Hebei. Ym 1907 ac yntau yn bump oed daethpwyd ag ef yn ôl i'r Alban lle yr aeth i ysgol pentref Drymen ac yna rhwng 1908 a 1920 i'r School for the Sons of Missionaries in London (a ddaeth yn ddiweddarach yn Goleg Eltham). Yn yr ysgol yr oedd ef a'i frawd hŷn yn rhagori mewn chwaraeon. Ym 1919 sefydlodd record ysgol o 10.2 eiliad am y can llath, record sy'n dal i sefyll heddiw.

Ym 1920 aeth yn fyfyriwr i Brifysgol Caeredin i ddilyn gradd BSc mewn gwyddoniaeth. Fel myfyriwr torrodd record yr Alban am y 100 a'r 200 llath a sefydlu record newydd am y 440 llath (50.2 eiliad) yn y gystadleuaeth ryng-golegol. Oherwydd ei gyflymder rhyfeddol enillodd saith cap gyda thîm rygbi'r Alban fel asgellwr. Fe'i dewiswyd i redeg y 100 a'r 200 medr dros wledydd Prydain yng Ngemau Olympaidd Paris ym 1924. Ond gwrthododd redeg yn y ras 100 medr ar sail ei ffydd, oherwydd bod y rhagras yn cael ei chynnal ar ddydd Sul. Credai y dylid neilltuo'r Sul i addoli Duw a gorffwyso. Enillodd y fedal efydd yn y 200 medr ac yn gwbl annisgwyl fe enillodd y fedal aur yn y ras 400 medr gan greu record Olympaidd newydd o 47.6 eiliad.

Ychydig ddyddiau wedi'r fuddugoliaeth nodedig hon graddiodd ym Mhrifysgol Caeredin a chofrestrodd fel myfyriwr yng Ngholeg yr Annibynwyr Albanaidd yng Nghaeredin i ddilyn cwrs diwinyddol am flwyddyn. Yr oedd eisoes wedi penderfynu y byddai'n cysegru ei fywyd i waith cenhadol gan ddilyn ôl traed ei rieni. Yn ystod y flwyddyn fe'i trwythodd ei hun mewn gweithgareddau efengylu ymhlith y myfyrwyr gan siarad ar y penwythnosau ar hyd a lled yr Alban. Yn haf 1925 cymerodd ran yn ei gystadleuaeth athletau olaf a drefnwyd gan

Gymdeithas Athletau Amatur yr Alban lle yr enillodd y 100, 200 a 440 llath. Wedi hynny aeth yn athro i'r Coleg Anglo-Tsieineaidd yn Tientsin. Datblygodd weithgareddau athletig yn y coleg a pharhaodd i redeg mewn cystadlaethau yn China.

Ym 1931–2 dychwelodd Liddell am wyliau i'r Alban er mwyn cael ei ordeinio yn weinidog gyda'r Cynulleidfaolwyr. Ym 1934 priododd Florence – merch i genhadwr o Ganada – a hyfforddwyd fel nyrs. Ganwyd iddynt dair o ferched. Ni welodd erioed ei drydedd ferch gan iddo, yn sgil rhyfel cartref ac ymosodiad gan y Siapaneaid ar China, anfon ei wraig feichiog a'i ddwy ferch, er diogelwch, i Ganada. Arhosodd ef yn China yn ardal Siaokuan. Ysgrifennodd *The Sermon on the Mount: for Sunday School Teachers* (1937) ac yna gweithiodd ar *A Manual of Christian Discipline*, gyda'r bwriad o'i gyfieithu i un o'r ieithoedd brodorol.

Ym 1943 cafodd ef a'i gyd-genhadon eu carcharu gan y Siapaneaid mewn gwersyll yn Weihsien, Shantung. Er bod bywyd yn galed ac undonog yno nid oeddent yn greulon tuag atynt. Yn ddiweddarach roedd ei gyd-garcharorion a oroesodd yn cofio amdano fel dyn diymhongar, hwyliog a roddai esiampl Gristnogol loyw trwy ei ymddygiad. Bu farw yn Weihsien ar 21 Chwefror 1945 o diwmor ar yr ymennydd. Ym 1981 gwnaed y ffilm *Chariots of Fire* yn rhoi hanes ei fywyd.